Ar draws y ddinas 2-28 Medi 2024

# Rhaglen yr Ŵyl

Bwyd Da Caerdydd
Gŵyl Hydref

## Cegin Gymunedol

2, 9 ac 16 Medi (Drwy wahoddiad yn unig - Barnardos)

**Ysgol Uwchradd Gorllewin Caerdydd**

Ymunwch â'n Cegin Gymdeithasol i ddysgu sut i baratoi prydau blasus iach y gallwch eu paratoi gartref. Yn ogystal â gallu paratoi eich bwyd, byddwch hefyd yn gallu mynd ag ef gartref gyda chi i weddill eich teulu ei fwynhau.

## Gweithdy cawl campus Taz

Dydd Iau 5 Medi 1-3yp (Ar Agor i'r Cyhoedd - Cyfeillion Pedal Power Project Ltd)

**Caffi Pedal Power, Maes Carafanau Pontcanna Oddi ar Stryd Dogo, Caerdydd CF11 9JJ**

Dewch i ymuno â ni yng nghaffi Pedal Power i ddysgu'r gyfrinach i wneud cawl blasus Taz. Cewch wybod am yr holl awgrymiadau defnyddiol a thechnegau i ail-greu eich hoff gawl cartref.

## Barbeciw Cymdogaeth Newtown Court

Dydd Iau 5 Medi 1-3yp

(Drwy wahoddiad yn unig - United Welsh-Newtown Court, Caerdydd)

**United Welsh-Newtown Court, Caerdydd**

Mae trigolion Newtown Court yn cynnal Barbeciw Amlddiwylliannol i Bobl Hŷn, lle y gall y gymuned leol fwynhau cigoedd iach, opsiynau llysieuol a chynnyrch cartref, gan ddathlu blasau cyfoethog y gymuned amrywiol. Mwynhewch brynhawn o fwyd blasus, cwmni gwych, a phrofiadau diwylliannol bywiog mewn awyrgylch croesawgar a hwyliog.

## Parth Bwyd Da Caerdydd @ Gŵyl Fwyd Amgueddfa Cymru

Dydd Sadwrn a dydd Sul 7 ac 8 Medi 10yb - 6yp

(Ar Agor i'r Cyhoedd - Bwyd Caerdydd)

**Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru, Heol Michaelston, Caerdydd CF5 6XB**

Ym Mharth Bwyd Da Caerdydd bydd gweithgareddau hwyliog i'r teulu cyfan yn cael eu cynnal i ddysgu am fwyd sy'n llesol i'r bobl ac i'r blaned. Dan ofal Bwyd Caerdydd gyda Beca Lyne-Pirkis (Cogydd, Cyflwynydd, Awdur a Seren Great British Bake Off), bydd y parth yn cynnwys gweithdai ysbrydoledig, arddangosiadau, sgyrsiau a gweithgareddau i ddathlu bwyd lleol.

## Cyfarfod yr Hydref rhwydwaith Bwyd Caerdydd

Dydd Llun, 9 Medi 11.30yb-2.30yp (Ar Agor i'r Cyhoedd - Bwyd Caerdydd)

**Canolfan Ymwelwyr Parc Bute, 35 Heol y Gogledd, Caerdydd**

Ar 9 Medi rydym yn cynnal cyfarfod yr Hydref rhwydwaith Bwyd Caerdydd. Gall unrhyw un sydd â diddordeb ym mudiad bwyd da y ddinas ymuno â'r sefydliadau, y busnesau a'r unigolion sy'n mynychu.

## Dathlu Bwyd Tymhorol

7 neu 14 Medi (yn dibynnu ar y tywydd) (Drwy wahoddiad yn unig - Grŵp Ymddiriedolaeth Gymunedol Alhusna (ACT))

**Parc lleol Anderson Fields, Constellation Street, CF24 0EG**

Gwahoddir teuluoedd lleol sy'n byw yn CF24 sy'n fewnfudwyr, yn ffoaduriaid neu'n dod o gymunedau du ac ethnig lleiafrifol a'u plant i ymuno â digwyddiad awyr agored i ddathlu bwyd tymhorol a gynhelir gan ACT ac a gefnogir gan Bwyd Caerdydd. Mae croeso iddynt ddod i Barc Lleol Anderson Field rhwng 2-6pm i flasu, rhannu, mwynhau a chael awgrymiadau ar ryseitiau bwyd tymhorol diwylliannol ethnig iach. (drwy wahoddiad yn unig).

Ar draws y ddinas 2-28 Medi 2024

# Rhaglen yr Ŵyl

Bwyd Da Caerdydd
Gŵyl Hydref

## Yn ôl i'r Ysgol - Pecynnau Cinio

Dydd Mawrth 10 Medi 2-3.30yp (drwy wahoddiad yn unig - Family Action)

**Ysgol Gynradd y Tyllgoed, Heol Wellwright, Caerdydd CF5 3ED**

Bydd y gweithgaredd yn cefnogi plant a theuluoedd sy'n mynychu Clwb FOOD (Food On Our Doorstep) y Tyllgoed i greu pecynnau bwyd iach a chyffrous ar gyllideb.

## Sesiwn Blasu Bwyd y Cynhaeaf gyda Theuluoedd

Wythnos yn dechrau 16 Medi

(Drwy wahoddiad yn unig - Ysgolion Amrywiol yn Nwyrain Caerdydd)

**Amrywiol**

Cyflwyno plant y cyfnod sylfaen a'u teuluoedd i amrywiaeth o fwydydd y cynhaeaf. Mwynhewch flasu a dysgu am gynaeafu ffrwythau a llysiau gyda'ch plant yn yr ysgol.

## Diwrnod Agored Gardd Cegin Grangetown

Dydd Mercher 11 Medi, 11yb-2yp (Ar Agor i'r Cyhoedd - Gardd Cegin Grangetown)

**Ysgol Feithrin Grangetown, Heol Avondale, Caerdydd CF11 7DT**

11-1pm Teithiau o Amgylch yr Ardd a Sesiwn Gwirfoddolwyr – Dewch i ddarganfod sut y gallwch gymryd mwy o ran yng Ngardd Cegin Grangetown.

1pm -2pm Ymunwch â ni am ginio rhad ac am ddim a galwch draw i'n marchnad bwyd dros ben.

Mae Gardd Cegin Grangetown yn falch iawn o gyhoeddi diwrnod agored ar ein safle sydd newydd gael Baner Werdd yng Nghanolfan The Reach Ysgol Feithrin Grangetown! Dewch i ddathlu gwaith anhygoel ein gwirfoddolwyr ymroddedig sydd wedi bod yn allweddol wrth ddatblygu'r gwasanaethau gwerthfawr yr ydym yn eu cynnig i'r gymuned.

Edrychwn ymlaen at groesawu wynebau newydd, recriwtio gwirfoddolwyr, a'ch cyflwyno i'r amrywiaeth o weithgareddau rydym yn eu cynnal ar y safle. Peidiwch â cholli'r cyfle hwn i fod yn rhan o'n cymuned fywiog, gynaliadwy!
Dewch i fod yn rhan o rywbeth arbennig yng Ngardd Cegin Grangetown!


## Pecyn Stiw Swmpus y Sblot!

Dydd Gwener 13 Medi 10yb - hanner dydd

(Ar Agor i'r Cyhoedd - Gwirfoddolwyr Cymunedol y Sblot)

**Canolfan Hamdden STAR, Heol y Sblot, CF24 2BZ**

Ymunwch â ni ar gyfer Pecyn Stiw Swmpus y Sblot! Galwch draw i'n digwyddiad yng Ngŵyl Hydref Bwyd Da Caerdydd ddydd Gwener 13 Medi rhwng 10yb a hanner dydd i gael pecyn pryd iach a cherdyn rysáit i goginio pryd blasus tymhorol.





## Ar draws y ddinas 2-28 Medi 2024

# Rhaglen yr Ŵyl

Bwyd Da Caerdydd
Gŵyl Hydref

### Prydau bwyd o'n cymuned

Dydd Mercher 18 Medi 5-7yp (Drwy wahoddiad yn unig - Splo-down Food Co-op)

**Pen Stryd Marion, Y Sblot, Caerdydd, CF24 2DP**

Mae Splo-down yn gwahodd aelodau i ddod i flasu gwahanol seigiau wedi'u coginio gan aelodau o'r gydweithfa fwyd. Cewch weld sut mae tri aelod gwahanol yn defnyddio cynhwysion Splo-down yn eu coginio gan rannu eu ryseitiau er mwyn i chi eu dilyn. Yn ogystal â bwyd a diodydd am ddim, cewch hefyd gyfle i glywed gan ymwelydd gwadd arbennig o Uganda – Jenipher Sambazi, is-gadeirydd y cwmni cydweithredol Jenipher's Coffi sy'n cynhyrchu'r coffi masnach deg sy'n cael ei werthu yn Splo-down.

### Cinio Sul Cymunedol yn Aubergine

Dydd Sul 22 Medi 1-4yp (Drwy wahoddiad yn unig - CIC Aubergine Cafe and Events)

**Aubergine Cafe yng Nghanolfan Gymunedol Cathays, 36-38 Cathays Terrace, Cathays, Caerdydd, CF244HX**

Bydd pobl niwrowahanol ac LGBTQ+ Caerdydd yn ymuno â ni yn Aubergine Cafe ar gyfer ein Cinio Sul Cymunedol cyntaf erioed ddydd Sul 22 Medi. Bydd Aubergine yn trefnu cinio Sul teuluol ar gyfer ein cyfeillion cwiar a niwrowahanol yn rhad ac am ddim er mwyn dod â phobl ynghyd a thaclo unigrwydd ac ynysigrwydd. Ewch i'n tudalen Eventbrite i gael rhagor o wybodaeth ac i archebu eich lle.

### Gwneud cwrw yn Railway Gardens

Dydd Sul 22 Medi 10yb-3yp (Ar Agor i'r Cyhoedd - Green Squirrel)

**Railway Gardens, Pen Stryd Adeline, Y Sblot, CF24 2BH**

Gadewch i ni fragu! Mae grŵp tyfu Railway Gardens wedi bod yn tyfu hopys a byddant yn dysgu sut i'w troi'n gwrw blasus (gobeithio!). Gallwch archebu lle o 25 Awst ymlaen neu mae croeso i chi alw heibio i weld y cwrw'n cael ei wneud.

### Gweithdy Cawl Ceyz

Dydd Llun, 23 Medi (Ar Agor i'r Cyhoedd - Ceyz)

**St Vincents Treléi, Mill Road, Caerdydd CF5 4AG**

Dewch draw am brynhawn llawn hwyl gyda Ceyz lle byddwn yn gwneud crochan mawr o gawl blasus sy'n dda i'ch iechyd yn ogystal â'ch waled!

### Caffi Dros Dro Herbie

Dydd Mercher 25 Medi (Drwy wahoddiad yn unig -Ysgol Gynradd Herbert Thompson)

**Ysgol Gynradd Herbert Thompson, Heol Plymouthwood, Treléi, Caerdydd, CF5 4XD**

Dewch i ymuno â ni yng Nghaffi Herbie ar gyfer digwyddiad undydd cyffrous dros dro, lle y bydd bwyd, cân, a chymdeithasu yn dod â'n cymuned ynghyd. Mwynhewch fwydydd, cerddoriaeth a chrefftau o bob cwr o'r byd a chreu feithrin cysylltiadau ar draws cenedlaethau a diwylliannau. Peidiwch â cholli'r dathliad unigryw hwn sy'n cefnogi Caerdydd iach, cynaliadwy a chynhwysol!

### Cinio Cynhaeaf Cymunedol Global Gardens

Dydd Sadwrn 28 Medi 2024 12-2yp (Ar Agor i'r Cyhoedd - Global Gardens)

**Global Gardens, Rhandiroedd Flaxland, Heol yr Eglwys Newydd, CF14 3NE.**

Ymunwch â ni am bryd o fwyd cymunedol i ddathlu'r cynhaeaf ym mhrosiect Global Gardens.

Bydd cyfleoedd i gydweithio i greu pryd o fwyd blasus ar y cyd.
Bydd hwn yn ddigwyddiad cyfeillgar i deuluoedd.

# Ar draws y ddinas 2-28 Medi 2024

# Rhaglen yr Ŵyl

## Diwrnod Afalau

Dydd Sadwrn 28 Medi (Ar Agor i'r Cyhoedd - Orchard Cardiff)

Global Gardens, Rhandiroedd Flaxland, Heol yr Eglwys Newydd, CF14 3NE.

Ymunwch â ni mewn dathliad afalau i'r teulu cyfan gyda gweithgareddau gwneud sudd, gwneud finegr seidr afal, cwis afalau a thaith o amgylch y berllan.

## O'r fferm i'r teulu

TBC (Drwy wahoddiad yn unig - Ysgol Gynradd Tredegarville)

**Heol Glossop, Caerdydd CF24 0JT**

Rhaglen llythrennedd bwyd arloesol Ysgol Tredegarville lle mae myfyrwyr yn archwilio marchnadoedd lleol, yn creu prydau iach, ac yn rhannu eu creadigaethau blasus mewn profiad unigryw o gaffi dros dro. Gan rymuso ein plant gyda gwybodaeth am arferion bwyd cynaliadwy, mae'r digwyddiad hwn yn meithrin ymgysylltiad cymunedol ac yn hyrwyddo arferion bwyta iachach i bawb.

## Cymryd a chreu

TBC (Drwy wahoddiad yn unig - Pantri Cymunedol Tremorfa)

**Neuadd Gymunedol Tremorfa, CF24 2QZ**

Ynghyd â'ch bag pantri arferol, yr wythnos hon byddwch hefyd yn cael bag cymryd a chreu yn cynnwys yr holl gynhwysion a chyfarwyddiadau i roi cynnig ar wneud rhywbeth gwahanol. Postiwch lun ar ein tudalen Facebook a rhowch wybod i ni os oeddech chi'n ei hoffi!

## Cyfle i gwrdd â thyfwyr Coed Organic!

Dydd Mercher 2 Hydref (Ar Agor i'r Cyhoedd - Coed Organic)

**Canolfan Gelfyddydau Chapter, Heol y Farchnad, Treganna, Caerdydd CF5 1QE**

Dewch i glywed popeth sy'n ymwneud â garddio marchnad a dulliau a thechnegau tyfu organig heb defnyddio unrhyw wrtaith anifeiliaid, sydd wedi'u hardystio gan gymdeithas y pridd, y mae Coed Organig yn eu defnyddio i gynhyrchu llysiau blasus a maethlon 20 munud o ganol Caerdydd! Bydd y tyfwyr yn cyflwyno eu hunain, y model Amaethyddiaeth a Gefnogir gan y Gymuned a thrafod sut y gallwch fwyta'n fwy tymhorol a chynaliadwy yma ym mhrifddinas Cymru.

